

Cyngor Celfyddydau Cymru

Datganiad am Gaethwasiaeth Fodern

Mehfin 2019



Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales



Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government



Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn ymrwymedig i ddarparu gwybodaeth mewn print bras, Braille, ar dâp sain ac ar ffurf Iaith Arwyddion Prydain. Byddwn yn ceisio darparu gwybodaeth mewn ieithoedd ar wahân i'r Gymraeg a'r Saesneg ar gais.

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn gweithredu polisi cyfle cyfartal.

Datganiad Cyngor Celfyddydau Cymru am Gaethwasiaeth Fodern

Pwrpas

Rhaid i Gyngor Celfyddydau Cymru gydymffurfio â Deddf Caethwasiaeth Fodern Prydain (2015) a chyhoeddi'r datganiad yma bob blwyddyn. Hefyd rydym ni'n cydymffurfio â Chod Ymarfer Llywodraeth Cymru am Gyflogaeth Foesebol mewn Cadwyni Cyflenwi.

<https://prp.gov.wales/docs/prp/toolkit/29358CodeofPracticeEthicalEmploymentinsupplychainsEnglishWEB.pdf>

Mae'r datganiad yma am Gyngor Celfyddydau Cymru ac mae'n cyfeirio at y flwyddyn ariannol Ebrill 2018-Mawrth 2019.

Pwy ydym ni?

Cyngor Celfyddydau Cymru yw'r corff cyhoeddus swyddogol sy'n ariannu a datblygu'r celfyddydau Cymru.

Bob dydd, mae pobl ledled Cymru yn mwynhau'r celfyddydau ac yn cymryd rhan ynddyn nhw. Rydym ni'n cefnogi a thyfu'r gweithgarwch yma drwy ddefnyddio'r arian cyhoeddus mae Llywodraeth Cymru yn ei roi inni a'r arian achos da rydym ni'n ei gael gan y Loteri Genedlaethol.

Drwy reoli'r arian yma a'i fuddsoddi mewn gweithgarwch creadigol, rydym ni'n cyfrannu at safon fyw pobl ac at lesiant economaidd, cymdeithasol a diwylliannol Cymru.

Ein cyfeiriad cofrestredig yw Plas Bute, Caerdydd CF10 5AL

Diffiniadau

Rydym ni'n ystyried bod caethwasiaeth fodern yn cwmpasu:

- masnachu pobl
- gorfodi pobl i weithio drwy fygythiad corfforol neu feddyliol
- cael eich perchnogi neu'ch rheoli gan gyflogwr drwy gam-drin neu fygwth cam-drin
- cael eich dad-ddynoli, neu'ch trin fel nwydd neu eiddo
- cael eich cyfyngu'n gorfforol neu dderbyn cyfyngiadau ar eich rhyddid i symud

Polisiau

Rydym ni'n ymrwymedig i sicrhau bod ein harferion cyflogaeth a'n polisiau a gweithdrefnau corfforaethol yn diogelu hawliau ein holl weithwyr. Rydym ni'n gweithredu'n well na'r safonau isaf o ran yr hyn sydd ei angen yn ôl y gyfraith i sicrhau bod ein gweithwyr yn ddiogel, yn cael eu gwobrwyo'n deg a chael eu gwerthfawrogi. Bob blwyddyn rydym ni'n cyhoeddi ein

datganiad polisi cyflog ar ein gwefan. Rydym ni'n gwybod mai ein staff yw ein hased mwyaf gwerthfawr ac rydym ni'n ymrwymedig i gynig telerau ac amodau teg ar gyfer ein holl staff. Rydym ni'n meincnodi ein telerau ac amodau yn erbyn cyrff eraill a noddir gan Lywodraeth Cymru. Rydym ni'n ymgynghori hefyd â'n hundeb llafur cydnabyddedig i sicrhau ein bod ni'n cynnig cyflog a buddiannau cystadleuol i'n staff er mwyn denu staff newydd a chadw ein gweithlu presennol.

Polisiâu a dogfennau eraill sy'n berthnasol:

- contract cyflogaeth ac amodau gwaith
- cod yr arfer gorau
- chwythu'r chwiban
- gweithwyr asiantaeth ac ymgynghorwyr
- aflonyddu a bwlio
- recriwtio
- cytundeb â'r Undeb

Cadwyni Cyflenwi a Chaffael

Rydym ni wedi mabwysiadu **Polisi ar Gaffael Moesegol** sy'n berthnasol i'r canlynol:

- pob aelod o'r Cyngor, ein staff, ein hasiantau a phobl rydym ni'n eu penodi
- staff sy'n cael eu cyflogi'n anuniongyrchol neu sy'n dod drwy law contractwyr neu asiantaethau cyflogaeth i weithio ar ein safleoedd neu i wneud gwaith inni

Rhaid i bob un o'n cyflenwyr gadw at yr amodau sydd yn ein polisi

Cydymffurfio

Drwy ymrwmo i gytundeb â ni, rhaid i gyflenwyr gytuno â thelerau'r polisi a'u derbyn.

Diwydrwydd dyladwy

Rydym ni'n gwneud yn siŵr bod pob aelod o'r staff yn ymwybodol o'r polisi i sicrhau lefel uchel o ddealltwriaeth o'r peryglon o gaethwasiaeth fodern a masnachu pobl yn ein gweithgareddau caffael a gweithio. Mae gennym weithdrefnau ar waith er mwyn:

- nodi ac asesu meysydd o berygl posibl
- lleihau'r perygl bod caethwasiaeth a masnachu pobl yn digwydd
- monitro meysydd o berygl posibl yn ein cadwyni cyflenwi
- diogelu pobl sy'n chwythu'r chwiban

Adolygu

Rydym ni'n adolygu a diweddarau'r polisi'n flynyddol. Byddwn ni'n ei wneud nesaf yn Ebrill 2020.

Nick Copalsi

Llofnod y Prif Weithredwr

Mai 2019